BT Group

In partnership with AbilityNet

Gwrando ar lyfrau llafar

Mae yna filoedd o lyfrau ar gael ar-lein, o hunangofiannau i'r nofel gyffrous ddiweddaraf. Yn ogystal, gallwch eu cael ar fformat llafar, sy'n golygu y gallwch wrando pryd bynnag y dymunwch.

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddod i arfer â lawrlwytho a gwrando ar lyfrau llafar, ar gyfer defnyddwyr Apple ac Android.

* Gall cyfarwyddiadau amrywio yn ôl model eich dyfais.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

1. Sut i gofrestru ar Google Play ac Apple Books
2. Sut i lawrlwytho a gwrando ar lyfrau llafar ar Google Play ac Apple BooksPlay and Apple Books

Cofrestru ar Google Play ac Apple Books

Cyn i chi ddechrau eich profiad gwrando, bydd angen i chi gofrestru cyfrif naill ai gyda Google Play neu Siop Apiau Apple drwy Apple ID neu fewngofnodi os ydych eisoes wedi creu cyfrif.

Google Play

1. Agorwch y porwr gwe
2. Dewiswch y bar cyfeiriad/chwilio
3. Teipiwch yn play.google.com <http://play.google.com/> a phwyso return/enter
4. Cliciwch glicio ar 'Sign up'. Gallwch gofrestru gan ddefnyddio eich cyfrif Google. Os nad oes gennych un, bydd angen i chi greu un drwy nodi eich enw, eich cyfeiriad e-bost a chyfrinair. Dewiswch 'Next' i greu cyfrif a chytuno â thelerau ac amodau Google Play. Yna bydd eich cyfrif wedi'i greu ac yn barod i'w ddefnyddio.

Mae gan Google Play ap hefyd (Google Play Books & Audiobooks) y gallwch ei lawrlwytho drwy Siop Apiau Apple neu'r Play Store, sy'n golygu y gallwch wrando ar lyfrau llafar ar fynd.

I gael gwybod mwy am lawrlwytho ap, gallwch ddarllen taflen wybodaeth ar y pwnc hwnnw naill ai drwy glicio'r ddolen neu ei deipio yn eich porwr gwe: bt.com/seniorskills

Ar ôl i'r ap lawrlwytho, gallwch fewngofnodi neu gofrestru gan ddefnyddio eich cyfrif Google a gwrando ar lyfrau llafar ar eich dyfais.

BT Group

In partnership with AbilityNet

Gwrando ar lyfrau llafar parhad

Gwrando ar lyfrau llafar ar Google Play

1. Pan fyddwch ar wefan Google Play neu'r ap, cliciwch ar 'Llyfrau' o'r ddewislen ar waelod y sgrin
2. 'Dewiswch 'Audiobooks'
3. Gallwch bori drwy'r rhestr, neu chwilio am lyfrau llafar yr hoffech wrando arnynt
4. Cliciwch play a mwynhewch!

Rhaid talu am rai llyfrau llafar, felly efallai bydd yn rhaid i chi nodi eich manylion talu cyn gwrando. Gallwch bob amser chwilio am lyfrau am ddim os byddai'n well gennych.



Apple Books

Dim ond ar ddyfeisiau Apple y mae Apple Books ar gael. Dylai'r ap fod wedi'i osod eisoes ar eich dyfais, fodd bynnag, os nad ydyw, gellir ei lawrlwytho am ddim o'r Siop Apiau.

I wrando ar lyfrau llafar drwy Apple Books, bydd angen Apple ID arnoch. I gael gwybod mwy am hyn, gallwch ddarllen ein taflen wybodaeth sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am y Siop Apiau: bt.com/seniorskills

1. Agorwch yr ap Llyfrau
2. Tapiwch neu glicio ar yr adran 'Llyfrau Llafar/Audiobooks'
3. Gallwch bori'r llyfrau sydd ar gael, neu chwilio am un penodol drwy glicio 'Search' yn y gornel isaf ar y dde
4. Pan fyddwch wedi dod i hyd i lyfr llafar o ddiddordeb i chi, dylech ei dapio neu glicio arno
5. Ar ôl i'r llyfr llafar lawrlwytho, bydd yn ymddangos yn eich 'Llyfrgell' (sydd ar waelod y sgrin)



Noder, rhaid talu am rai llyfrau llafar, felly bydd rhaid i chi nodi eich manylion talu. Gallwch bob amser chwilio am lyfrau am ddim os byddai'n well gennych.

Darparwyr llyfrau llafar eraill

Gall eich dysgwr ddewis ymuno â gwasanaeth tanysgrifio i wrando ar rai llyfrau llafar. Bydd angen i chi ychwanegu eich manylion talu. Os ydych yn ansicr, holwch eich cynorthwyydd cyn rhannu unrhyw wybodaeth bancio.

Mae yna ddarparwyr llyfrau llafar eraill sydd â modelau talu gwahanol, gan gynnwys:

- **Audible**: www.audible.co.uk
- **Kindle Books**: www.amazon.co.uk/Kindle-eBooks

Dolen i ddysgu pellach

Os ydych yn colli eich golwg, mae gan y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) lawer o lyfrau llafar ar gael. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.rnib.org.uk/talkingbooks